

Mynychu cyfweiliad

Paratoi

Mae paratoi ar gyfer cyfweiliad yn bwysig iawn. Mae pethau gwahanol y mae angen i chi feddwl amdanynt cyn mynychu cyfweiliad, fel diweddarau eich dogfennau, cynllunio beth i'w wisgo a meddwl am sut y dylech ymddwyn.

Mewn cyfweiliad am swydd mae angen i chi fod yn barod i ateb gwahanol fathau o gwestiynau. Yn gyffredinol, mae cyfwelydd medrus yn osgoi gofyn cwestiynau sy'n gofyn am ateb le / Na yn unig, ac er mwyn darganfod a ydych yn addas i'r swydd, bydd y cyfwelydd yn hoffi i chi siarad mwy fel ei fod ef neu hi yn cael mwy o amser i wrando a gwerthuso yr hyn a ddywedwch.

Os ydych yn medru trin cwestiynau'r cyfwelydd yn dda, byddwch yn gadael argraff dda. Felly, mae'n bwysig i chi feddwl am yr holl gwestiynau posibl cyn i chi fynd i gyfweiliad.

Wrth gwrs, rydych eisiau creu argraff ar y cyfwelydd a dangos bod gennych y rhinweddau sydd eu hangen ar gyfer y swydd. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i chi gynllunio ymlaen llaw ar gyfer cyfleoedd i werthu eich hun. Meddyliwch yn ofalus am ba gryfderau y gallwch fanteisio arnynt a'r amser gorau i wneud hynny.

Byddwch yn benodol ac yn hyderus. Ar ôl i chi grybwyll cryfder, dylech gefnogi'r hyn yr ydych wedi'i ddweud gydag enghreifftiau a phrofiad blaenorol. Bydd hyn yn rhoi argraff i'r cyfwelydd eich bod yn cyflwyno eich hun gyda ffeithiau a thystiolaeth yn hytrach na brolio neu esgus eich bod yn gwybod rhywbeth.

Y Cyfweiliad

Fel arfer, mae dau neu dri o bobl ar y panel cyfweld. Bydd un person yn gweithredu fel Cadeirydd a bydd yn rhoi amlinelliad byr o'r fformat ar gyfer y cyfweiliad. Bydd pob aelod o'r panel fel arfer yn gofyn ychydig o gwestiynau yr un, efallai y byddant yn gofyn i chi roi manylion pellach am eich ateb os ydynt yn teimlo ei bod yn angenrheidiol.

Efallai hefyd y gofynnir i chi roi cyflwyniad byr neu sefyll prawf. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd manylion unrhyw gyflwyniad yn cael eu rhoi i chi ymlaen llaw er mwyn rhoi amser i baratoi.

Cyn gwneud unrhyw ymgais i ateb cwestiwn, gwnewch yn siŵr eich bod wir yn ei ddeall. Os nad ydych yn siŵr eich bod yn deall, gallwch wirio'r cwestiwn trwy ofyn am aileiriad. Weithiau, mae'n anodd meddwl am ateb ar unwaith. Mae angen i chi roi ychydig o eiliadau i chi eich hun feddwl, ond ni ddylech eistedd ac edrych ar y cyfwelydd mewn tawelwch.

Peidiwch â cholli eich hyder hyd yn oed os na allwch ateb cwestiwn neu os ydych yn teimlo eich bod wedi gwneud hynny yn wael. Gallai fod yn gwestiwn anodd i unrhyw ymgeisydd. Mae'n fwy pwysig eich bod yn canolbwyntio a meddwl am y cwestiwn nesaf.

Weithiau, efallai y gofynnir i chi pam eich bod am ymuno â'r Cyngor. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud eich gwaith cartref i ddarganfod mwy am y bobl rydych yn gobeithio gweithio iddynt fel y gallwch ddefnyddio'r wybodaeth yn hawdd yn ystod y cyfweiliad.

Ar gyfer pobl sydd â phrofiad gwaith, efallai y gofynnir i chi pam eich bod wedi gadael eich swydd ddiwethaf. Mae'r cyfwelydd yn ceisio darganfod a oedd gennych unrhyw broblemau yn eich swydd ddiwethaf. Peidiwch â dweud unrhyw beth negyddol amdanoch chi eich hun na'ch cyflogwr blaenorol.

Rhesymau cyffredin dros adael yw toriadau cyllidebol, y swydd yn un dros dro, y cwmni wedi rhoi'r gorau i fasnachu, dim lle i ddatblygu neu roeddech eisiau swydd a fyddai'n caniatáu i chi ddefnyddio eich sgiliau yn well.

Os yw'n ymwneud â rhesymau personol, fel methu ymwneud â'ch cydweithwyr blaenorol, gofal plant, problem iechyd, ac yn y blaen, ceisiwch esbonio heb fod yn negyddol a dangoswch eich bod wedi dysgu rhywbeth oddi wrth y sefyllfa ac na fydd y broblem yn effeithio ar eich gwaith yn y dyfodol.

Gall y cyfwelydd hefyd ofyn am eich cynlluniau i'r dyfodol i weld a ydych yn gosod nodau i chi eich hun a pha fath o ddisgwyliadau sydd gennych am y Cyngor. Gallwch sôn am eich cynlluniau i astudio neu ddiddordebau proffesiynol, sydd ddim yn debygol o effeithio ar eich gallu i gyflawni gofynion y swydd. Gall eich ateb ddangos eich bod yn gwybod lle gallai'r swydd arwain.

Tua diwedd y cyfweiliad, fel arfer gofynnir i chi a oes gennych unrhyw gwestiynau. Manteisiwch ar y cyfle i ofyn cwestiynau rydych wedi'u paratoi ymlaen llaw i ddangos bod gennych ddiddordeb yn y cwmni a'r swydd.